Cliciwch am y Gymraeg

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

The Open University
Y Brifysgol Agored
WALES CYMRU



# STUDENT SUPPORT BOOKLET

**A guide for Cardiff and Vale College (CAVC) students progressing to The Open University (OU)**

# WELCOME



Cardiff and Vale College (CAVC) is committed to ensuring that you have the best possible opportunities to progress to complete your degree once you have completed your HND or Foundation Degree.

Doing this with The Open University in Wales (OU) is a fantastic opportunity to build on the knowledge and skills you have already acquired and to be part of a new and exciting online community. To help you in this transition, we hope that this resource will prove valuable as you take the next steps in your learning journey.

Leon Annett
Dean of Higher Education
Cardiff and Vale College



Welcome to your Open University in Wales (OU) Student Handbook to support your transition from Cardiff and Vale College (CAVC). It is great to have you as part of the OU family.

We recognise that you may be moving from learning designed for a traditional college or classroom-base to study designed for distance and online-learning by the OU. You will continue to be supported by the staff and fellow learners of the OU community along the way and this handy guide will give you lots of information you may need on your exciting journey as an OU student.

This handbook will get you started. Where it will take you, is up to you.

Do enjoy the adventure.

Louise Casella
Director
The Open University in Wales


# HOW DOES OU STUDY WORK?

The Open University is the largest provider of part-time undergraduate higher education in Wales. Watch this **video** to find out more about us.

As an OU student, you will be studying with the UK's largest university, and the leading expert in flexible higher education.

Studying one module at a time through **distance learning** however, does not mean studying alone. You will be combining the flexibility of **self-directed learning** with access to the UK's largest student community. Throughout your studies, you will be able to:

- Rely on support every step of the way from the **Student Support Team** and access lots of **useful support information** on our website.
- Connect online, or in person, through **tutors and tutorials**, study days and study groups.
- Take part in online forums, available 24/7, to discuss your course with students, staff and alumni.
- Engage in live online interactive events with **Student Hub Live SHL-connect**.
- Enjoy and share free OU content, on the BBC, YouTube, iTunes and OpenLearn.
- Automatic membership of the Open University Students Association (OUSA), the student union run by students for students. You can find out more about the benefits of being part of the OU Community **here**.






# MYTH BUSTING!

### Myth #1:
## The Open University is not a real university!

- The Open University is the **largest university in the UK** with over **168,000 current students**. Since we launched over 50 years ago, we have taught more than 2 million people in 157 countries.
- Open University degrees are equivalent to degrees from brick universities, with the same rigorous academic standards and student attainment as seen in the rest of the higher education sector.
- Our curriculum is underpinned by world-class research with our network of over 5,000 tutors experts within their industry sectors.
- 86% of our former **students** say OU study has helped them achieve their career or personal goals.
- The OU is the third biggest provider of graduates for the world's largest tech companies after Oxford and Cambridge, according to analysis by LinkedIn.

### Myth #2:
## I will never be able to afford to do a degree!

- There is a range of **funding** methods available. A student like you, with 120 credits left to complete, could expect to pay around £2,600 at the OU, compared to £9,000 tuition fees at a brick university.
- You could get up to £4,500 a year to help with living costs whilst you study part-time with the OU*. The maintenance funding is a grant, which means you don't have to pay the money back. Find out how much you could be eligible for on our **website**.
- There's also help available for students on a low income for **study related costs, such as internet access, stationery or travel to tutorials**.

*Eligibility rules apply for financial support.

## A New £250 Bursary for CAVC students

As you are a CAVC student and a part of this transition project with the OU in Wales, we can potentially offer you an in-kind bursary of £250 to assist with your progression and studies (please also see 'Funding your studies' on page 7).

### Myth #3:
## The OU will just send me books to work through!

We've pioneered distance learning for over 50 years, giving you expert tutor support, an immersive learning experience, and flexibility to learn around your life. Distance has never stopped us. It's brought us together. And we are constantly innovating in how we deliver our learning, including:

- Online study, including interactive activities, videos, and articles on our module website.
- Personal support from your dedicated module tutor.
- Tutorials with your tutor and fellow students either online, in-person, or a mixture of both.
- Engaging with a global student community through online forums.

Find out more about our **blend of learning methods**.

# OPEN DEGREES – WHAT ARE THEY… HOW CAN AN OPEN DEGREE WORK FOR YOU?

We offer potential flexible progression pathways in all the subject areas you would expect, in addition to those included in our partnership with CAVC. You can explore our range of over 400 modules on the OU **website**. However, if you're undecided on a specific subject, you may wish to consider a 'top up' with our exciting and innovative **BA/BSc (Honours) Open degree** which gives you the freedom to study a range of subjects.

A BA/BSc (Honours) Open degree equips you with a wide range of expertise, skills and capabilities that are much sought after in today's highly competitive job market.

We also offer the **BSc (Honours) Combined STEM degree** which allows you to build your own degree from a wide range of STEM modules and study routes.

The Open Degree is an honours degree with a difference as, free from the restriction of a subject-specific specialism, you set the direction of your learning by choosing your own modules by:

- Tailoring your qualification to suit your needs.
- Choosing modules from a wide range of subject areas.
- Studying that fits your evolving career ambitions, lifestyle or personal interests.



# HOW DO I APPLY?

On successful completion of your Foundation Degree or equivalent (240 credits) with CAVC you will be eligible to potentially **continue your study** towards a full BA/BSc (Honours) subject specific degree or our BA/BSc (Honours) Open Degree. You will need to study a ‘top up’ 120 credits at the OU.

Here's a timetable for you to follow (please note places are subject to availability, as some may fill up before registration closes).

### Application Timeline Summary

**APRIL & MAY**
Seek advice and guidance and make choices

**JUNE**
Apply for part-time tuition fee loan & ideal time to submit credit transfer application (earlier if you can!)

**AUG**
Final deadline for credit transfer applications

**SEPT**
Final enrolment date 09/09/21

**OCT**
Module start

| Stage 1 | Stage 2 | Stage 3 |
|---|---|---|
| – **Access advice** and **guidance** available from The Open University<br>– Choose **qualification**<br>– Choose module(s) based on pathway | – Apply to Student Finance Wales **for part-time tuition fee loan** – (listing chosen qualification)<br>– Apply online for credit transfer. You should apply for credit transfer before you register, at least 4 weeks before the registration closing date. For more details of when you will need to apply by and to download an **application form**, visit our **Credit Transfer website** and our **FAQ page**<br>– Our credit transfer team will look at the transcript of your previous study and compare the content that you have studied against the content of the Open University modules that make up your qualification | – Register on chosen qualification and reserve interest in module(s) via online registration form or by phone<br>– Complete registration with a Student Finance Wales Customer Reference Number or alternative payment method |





# FUNDING YOUR STUDIES

## Bursaries

A new £250 Bursary for CAVC students choosing to study with the OU:

As part of this collaborative partnership with CAVC we can potentially offer you an in-kind bursary of £250 to help support you in your learning at the OU.*

In addition, depending on your circumstances, you could be eligible to apply for one or more of the following:

- **Study Related Costs Funding**
- **Carers' Scholarship Fund**
- **Carers' Bursary**
- **Carers' Experienced Bursary**
- **Disabled Students Allowance**
- **Disabled Veterans' Fund**

## How to pay the course fees

Open University qualifications are made up of a series of modules. Every module has an individual fee – added together, they give you the total cost.

You'll **fund your modules** as you study them, which means you won't have to pay for your whole qualification up front. A typical 60 credit module with The Open University in Wales costs £1,284 (for academic year 2021/22).

There are a variety of ways you can pay:

## Part-Time Tuition Fee Loan

Over 80% of our new students in Wales fund their studies with a Part-Time Tuition Fee Loan (sometimes called a student loan), meaning they pay nothing up front. Eligibility isn't based on your income and you won't repay a penny until you earn over a certain amount. Further details on how you apply via Student Finance Wales can be found on our **website**.

## Card payments

Pay for each module with a debit or credit card in one quick, simple payment.

## Open University Student Budget Account (OUSBA)

To qualify for a loan with OUSBA, you must be over 18 years old and will need to provide proof that you can afford the repayments.

Using OUSBA, you have two options:

1) **OUSBA pays** your full fee direct to the OU on your behalf. OUSBA then spreads the fee and interest payable over up to a year, enabling you to pay your fees monthly.

2) **OUSBA pays** your full fee direct to the OU on your behalf. You then repay OUSBA interest free and in full just before your module starts. 0% APR representative.

OUSBA is not The Open University; it is a separate legal organisation but is a wholly owned subsidiary of the OU.

The Open University works exclusively with OUSBA and is not able to offer you credit facilities from any other provider. Should you wish to consider a loan from any other provider you should make your own enquiries.

## Help with living costs

There is also financial support available to help with your living costs whilst you're studying with the OU in Wales. You could get up to £4,500* a year as a maintenance grant dependent on your household income and how many credits you are studying. As the money you receive isn't a loan – you won't need to pay it back. However, if you aren't eligible for the full grant, you can also apply for an additional top-up loan. **Find out more** about working out your entitlement.

*Eligibility rules apply for financial support

# ACCESSIBILITY AND SUPPORT

## Accessibility on formal study modules

We're committed to making study accessible to all, whether you have a disability, health condition, mental health difficulty, or a specific learning difficulty (such as dyslexia). When you sign up for a qualification or module, we'll ask you to let us know about any additional circumstances that may impact on your studies.

The support we may be able to offer will depend on the modules you choose to take, but our services include:

- Accessible study materials
- Specialist equipment
- Tailored assessment
- Residential schools support
- Additional support accessing tutorials and day schools
- Financial help

## Support for disabled students

Our flexible system of learning supports the largest disabled student community of any UK university.

Find out more about the support we offer **here**.

## Student Voice

The Open University is dedicated to continuously strengthening the student voice by enabling its students to play a key role in shaping the University's direction.

There are many ways to have your say as an OU student:

- Student consultations (face to face and online)
- OU Students Association
- Surveys
- Become a Module/Course/School/Faculty representative
- Student Voice Week
- Student representatives on all key committees and groups in the university
- Student representatives on quality assurance processes
- OU Students Association



## OpenLearn

You may have noticed that we've used links in this guide to **OpenLearn, OpenLearn Wales** and **OpenLearn Cymru**. These OU websites are home to over 1000 **free short courses** including **some** which will help you in your progression to your **top up** degree with the OU.






**We're here to help you every step of the way so do get in touch!**

## FIND OUT MORE

| | |
|---|---|
| **Call** | **029 2047 1170** |
| **Email** | **wales-support@open.ac.uk** |
| **Visit** | **open.ac.uk/contact** |
| **Twitter** | **@OUCymru** |
| **Linkedin** | **The Open University in Wales** |
| **Facebook** | **@openuniversitywales** |

The Open University is incorporated by Royal Charter (RC 000391), an exempt charity in England & Wales and a charity registered in Scotland (SC 038302). The Open University is authorised and regulated by the Financial Conduct Authority in relation to its secondary activity of credit broking.

All information in this guide is indicative and correct at the time of going to press May 2021.



Click for English

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

The Open University
Y Brifysgol Agored
WALES CYMRU

# LLYFRYN CYMORTH MYFYRWYR

**Canllaw i fyfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro (CAVC) sy'n symud ymlaen i'r Brifysgol Agored**

Click for English

# CROESO





Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn ymrwymedig i sicrhau eich bod yn cael y cyfleoedd gorau posibl i symud ymlaen i gwblhau eich gradd ar ôl i chi gwblhau eich HND neu Radd Sylfaen.

Mae cydweithio â'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn hyn o beth yn gyfle gwych i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau rydych eisoes wedi'u meithrin, a bod yn rhan o gymuned ar-lein newydd a chyffrous. Er mwyn eich helpu yn ystod y cyfnod pontio hwn, rydym yn gobeithio y bydd yr adnodd hwn yn amhrisiadwy wrth i chi gymryd y camau nesaf ar eich taith ddysgu.

Leon Annett
Deon Addysg Uwch
Coleg Caerdydd a'r Fro

Croeso i'ch Llawlyfr Myfyrwyr Y Brifysgol Agored yng Nghymru, i'ch cefnogi wrth symud ymlaen o Goleg Caerdydd a'r Fro. Mae'n bleser gennym eich croesawu i deulu'r Brifysgol Agored.

Rydym yn cydnabod y gallech fod yn symud o ddysgu wedi'i ddylunio ar gyfer coleg neu ystafell ddosbarth draddodiadol i astudiaeth wedi'i dylunio ar gyfer dysgu o bell ac ar-lein gan Y Brifysgol Agored. Byddwch yn parhau i gael eich cefnogi gan staff a chyd-ddysgwyr cymuned Y Brifysgol Agored ar hyd y daith, a bydd y canllaw defnyddiol hwn yn rhoi llawer o wybodaeth y gallai fod ei hangen arnoch ar eich taith gyffrous newydd fel un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored.

Bydd y llawlyfr hwn yn eich rhoi ar ben ffordd. Eich dewis chi yw'r trywydd y byddwch yn ei ddilyn.

Mwynhewch yr antur.

Louise Casella
Cyfarwyddwr
Y Brifysgol Agored yng Nghymru


# SUT MAE ASTUDIO GYDA'R BRIFYSGOL AGORED YN GWEITHIO?

Y Brifysgol Agored yw'r darparwr addysg uwch rhan amser mwyaf yng Nghymru. Gwyliwch y **fideo** hwn i ddarganfod mwy amdanom ni.

Fel un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored, byddwch yn astudio gyda phrifysgol fwyaf y DU, a'r arbenigwr mwyaf blaenllaw ym maes addysg uwch hyblyg.

Fodd bynnag, nid yw astudio un modiwl ar y tro drwy **ddysgu o bell** yn golygu y byddwch yn astudio ar eich pen eich hun. Byddwch yn manteisio ar hyblygrwydd **dysgu hunangyfeiriedig** ochr yn ochr â chymuned myfyrwyr fwyaf y DU. Drwy gydol eich astudiaethau, byddwch yn gallu gwneud y canlynol:

- Dibynnu ar gymorth ar bob cam o'r daith gan y **Tîm Cymorth Myfyrwyr** a manteisio ar doreth o **wybodaeth gymorth ddefnyddiol** ar ein gwefan.
- Cysylltu ar-lein, neu yn bersonol, drwy **diwtoriaid a thiwtorialau**, diwrnodau astudio a grwpiau astudio.
- Cymryd rhan mewn fforymau ar-lein, sydd ar gael 24/7, i drafod eich cwrs â myfyrwyr, staff a chyn-fyfyrwyr.
- Cymryd rhan mewn digwyddiadau rhyngweithiol ar-lein gyda **Student Hub Live SHL-connect**.
- Mwynhau a rhannu cynnwys am ddim gan Y Brifysgol Agored, ar y BBC, YouTube, iTunes ac OpenLearn.
- Aelodaeth awtomatig o Gymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored, sef undeb y myfyrwyr a gaiff ei redeg gan fyfyrwyr ar gyfer myfyrwyr. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am fanteision bod yn rhan o Gymuned Y Brifysgol Agored **yma**.






# CHWALU'R MYTHAU!

### Myth #1:
### Dyw'r Brifysgol Agored ddim yn brifysgol go iawn!

- Y Brifysgol Agored **yw'r brifysgol fwyaf ym Mhrydain** gyda thros **168,000 o fyfyrwyr** ar hyn o bryd. Ers lansio ein Prifysgol 50 mlynedd yn ôl, rydym wedi addysgu mwy na 2 miliwn o bobl mewn 157 o wledydd.
- Mae graddau o'r Brifysgol Agored cyfwerth â graddau o brifysgolion sydd â champysau, a cheir yr un safon academaidd lem a phresenoldeb myfyrwyr a welir yng ngweddill y sector safon uwch.
- Mae ein cwricwlwm yn cael ei gefnogi gan ymchwil o'r radd flaenaf o'n rhwydwaith o fwy na 5,000 o diwtoriaid sy'n arbenigo yn eu meysydd.
- Dywed 86% o'n **cyn-fyfyrwyr** fod eu hastudiaethau gyda'r Brifysgol Agored wedi eu helpu i gyflawni eu nodau personol neu yrfaol.
- Yn ôl dadansoddiad gan LinkedIn, y Brifysgol Agored sy'n darparu'r nifer uchaf o raddedigion ar gyfer cwmnïau technoleg mwyaf y byd, ar ôl Rhydychen a Chaergrawnt.

### Myth #2:
### Bydda i byth yn gallu fforddio dilyn gradd!

- Mae amrywiaeth o ddulliau **cyllido** ar gael, a gallai myfyriwr fel chi sydd â 120 o gredydau yn weddill i'w cwblhau ddisgwyl talu tua £2600 yn Y Brifysgol Agored, o gymharu â ffioedd dysgu o £9000 mewn prifysgol brics a morter.
- Gallech dderbyn hyd at £4,500 y flwyddyn tuag at gostau byw wrth i chi astudio'n rhan amser gyda'r Brifysgol Agored*. Grant yw'r cyllid cynnal a chadw, sy'n golygu na fydd yn rhaid i chi dalu'r arian yn ôl. Dysgwch faint allech chi ei gael ar ein **gwefan**.
- Mae cymorth ar gael hefyd i fyfyrwyr ar incwm isel gyda chostau astudio perthnasol, megis **cysylltiad â'r rhyngrwyd, offer ysgrifennu neu deithio i diwtorialau**.

*Mae rheolau cymhwysedd yn berthnasol ar gyfer cymorth ariannol.

### Bwrsari newydd gwerth £250 i fyfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro

Gan eich bod yn un o fyfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro ac yn rhan o'r prosiect pontio hwn gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru, mae'n bosibl y gallwn gynnig bwrsari mewn nwyddau £250 i chi, i'ch helpu o ran eich cynnydd a'ch astudiaethau (gweler 'Ariannu eich astudiaethau' ar dudalen 7).

### Myth #3:
### Bydd Y Brifysgol Agored ond yn anfon llyfrau ataf i mi weithio drwyddyn nhw!

Rydym wedi arloesi ym maes dysgu o bell ers mwy na 50 o flynyddoedd, ac wedi cyflwyno cymorth arbenigol gan diwtoriaid i chi, profiad dysgu cynhwysfawr, a hyblygrwydd i ddysgu o gwmpas eich bywyd fel arall. Nid yw pellter erioed wedi ein hatal. Mae wedi dod â ni at ein gilydd. Ac rydym o hyd yn arloesi'r ffordd rydym yn darparu ein haddysg, yn cynnwys:

- Astudio ar-lein, gan gynnwys gweithgareddau rhyngweithiol, fideos ac erthyglau ar wefan ein modiwl.
- Cefnogaeth bersonol gan eich tiwtor modiwl penodol.
- Tiwtorialau gyda'ch tiwtor a'ch cyd-fyfyrwyr naill ai ar-lein, yn bersonol, neu gymysgedd o'r ddau.
- Gweithio â chymuned fyfyrwyr fyd-eang trwy fforymau ar-lein.

Dysgwch fwy am ein **cyfuniad o ddulliau dysgu**.

# GRADDAU AGORED – BETH YDYNT... BETH Y GALL GRADD AGORED EI GYNNIG I CHI?

Rydym yn cynnig llwybrau cynnydd hyblyg posibl ym mhob un o'r meysydd pwnc y byddech yn eu disgwyl, yn ogystal â'r rhai sy'n rhan o'n partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro. Gallwch archwilio ein hystod o dros 400 o fodiwlau ar **wefan** y Brifysgol Agored. Fodd bynnag, os nad ydych wedi penderfynu ar bwnc penodol, efallai y byddwch am ystyried dilyn gradd 'ychwanegol' drwy ein **gradd Agored BA/BSc (Anrhydedd)** gyffrous ac arloesol, sy'n rhoi'r rhyddid i chi astudio amrywiaeth o bynciau.

Bydd gradd Agored BA/BSc (Anrhydedd) yn sicrhau eich bod yn meddu ar amrywiaeth eang o sgiliau, galluoedd ac arbenigedd y mae mawr alw amdanynt yn y farchnad swyddi gystadleuol sydd ohoni.

Rydym hefyd yn cynnig y **radd STEM Gyfunol BSc (Anrhydedd)**, sy'n eich galluogi i greu eich gradd eich hun o amrywiaeth eang o fodiwlau a llwybrau astudio STEM.

Mae'r radd Agored yn radd â gwahaniaeth, yn rhydd o gyfyngiad arbenigedd pwnc-benodol. Gallwch bennu cyfeiriad eich dysgu drwy ddewis eich modiwlau eich hun drwy wneud y canlynol:

- Teilwra eich cymhwyster i ddiwallu eich anghenion chi.
- Dewis modiwlau o amrywiaeth eang o feysydd pwnc.
- Astudio mewn ffordd sy'n addas ar gyfer eich uchelgeisiau o ran gyrfa, eich ffordd o fyw, neu'ch diddordebau personol.



# SUT Y GALLAF WNEUD CAIS?

Pan fyddwch wedi cwblhau eich Gradd Sylfaen neu gymhwyster cyfatebol (240 o gredydau) gyda Choleg Caerdydd a'r Fro, byddwch yn gymwys i **barhau i astudio** tuag at radd pwnc benodol BA/BSc (Anrhydedd) lawn neu ein Gradd Agored BA/ BSc (Anrhydedd). Bydd angen i chi astudio 120 o gredydau ychwanegol yn Y Brifysgol Agored.

Dyma linell amser i chi ei dilyn (nodwch fod lleoedd yn amodol ar argaeledd, oherwydd gall rhai lenwi cyn i'r cyfnod cofrestru ddod i ben).

### Crynodeb o'r Llinell Amser ar gyfer Ceisiadau

**MIS EBRILL A MIS MAI**

Ceisio cyngor ac arweiniad a gwneud dewisiadau

**MIS MEHEFIN**

Gwneud cais am fenthyciad ffioedd dysgu, a'r adeg ddelfrydol i gyflwyno cais i drosglwyddo credydau (gwnewch hyn yn gynt os gallwch!)

**MIS AWST**

Y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno Ceisiadau i Drosglwyddo Credydau

**MIS MEDI**

Y dyddiad olaf ar gyfer cofrestru 09/09/21

**MIS HYDREF**

Dechrau'r modiwl

| Cam 1 | Cam 2 | Cam 3 |
|---|---|---|
| – Cael **cyngor** ac **arweiniad** gan Y Brifysgol Agored<br>– Dewis **cymhwyster**<br>– Dewis modiwl(au) yn seiliedig ar lwybr | – Gwneud cais i Cyllid Myfyrwyr Cymru am **fenthyciad ffioedd dysgu rhan amser** - (gan restru'r cymhwyster dan sylw)<br>– Gwneud cais ar-lein i Drosglwyddo Credydau – Dylech wneud cais i drosglwyddo credydau cyn i chi gofrestru, o leiaf bedair wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer cofrestru. I gael rhagor o fanylion o ran pryd y bydd angen i chi wneud cais ac i lawrlwytho **ffurflen gais**, ewch i'n **gwefan Trosglwyddo Credydau** a'n **tudalen Cwestiynau Cyffredin**<br>– Bydd ein tîm trosglwyddo credydau yn edrych ar daflen gofnodi eich astudiaeth flaenorol ac yn cymharu'r cynnwys rydych wedi ei astudio â chynnwys modiwlau'r Brifysgol Agored sy'n ffurfio eich cymhwyster | – Cofrestru ar gyfer y cymhwyster dan sylw a mynegi diddordeb mewn modiwl(au) drwy ffurflen gofrestru ar-lein neu dros y ffôn<br>– Cwblhau'r broses gofrestru gyda Rhif Cyfeirnod Cwsmer Cyllid Myfyrwyr Cymru neu ddull talu amgen |

Click for English



# ARIANNU EICH ASTUDIAETHAU

### Bwrsarïau

Bwrsari newydd gwerth £250 i fyfyrwyr Coleg Caerdydd a'r Fro sy'n dewis astudio gyda'r Brifysgol Agored:

Fel rhan o'r bartneriaeth gydweithredol hon gyda Choleg Caerdydd a'r Fro, mae'n bleser gennym allu cynnig bwrsari cynnydd posibl gwerth £250 i chi, i gefnogi eich dysgu gyda'r Brifysgol Agored.*

At hynny, yn dibynnu ar eich amgylchiadau, gallech fod yn gymwys i wneud cais am un o'r canlynol:

- **Cyllid ar gyfer Costau sy'n Gysylltiedig ag Astudio**
- **Y Gronfa Ysgoloriaeth Gofalwyr**
- **Bwrsari Gofalwyr**
- **Bwrsari Gofalwyr Profiadol**
- **Lwfans Myfyrwyr Anabl**
- **Y Gronfa Cyn-filwyr Anabl**

### Sut i dalu ffi'r cwrs

Mae cymwysterau'r Brifysgol Agored yn cynnwys cyfres o fodiwlau. Mae gan bob modiwl ffi unigol – a gyda'i gilydd, maent yn dynodi cyfanswm y gost.

Byddwch yn **ariannu** eich astudiaethau ar sail modiwl unigol, sy'n golygu na fydd yn rhaid i chi dalu am eich cymhwyster cyfan ymlaen llaw. Mae modiwl 60 credyd nodweddiadol gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn costio £1,284 (ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22).

Mae nifer o ffyrdd y gallwch dalu:

### Benthyciad Ffioedd Dysgu Rhan-amser

Mae 80% o fyfyrwyr newydd y Brifysgol Agored yng Nghymru yn ariannu eu hastudiaethau gyda Benthyciad Ffioedd Dysgu (a elwir yn fenthyciad myfyriwr weithiau), sy'n golygu nad oes dim i'w dalu ymlaen llaw. Nid yw cymhwysedd yn seiliedig ar eich incwm ac ni fyddwch yn talu ad-dalu ceiniog nes eich bod yn ennill dros swm penodol. Mae manylion pellach a sut i ymgeisio ar gael trwy ein **gwefan**.

### Taliadau Cerdyn

Talu am bob modiwl gyda cherdyn debyd neu gredyd mewn un taliad cyflym, syml.

### Cyfrif Cyllideb Myfyrwyr y Brifysgol Agored (OUSBA)

Er mwyn bod yn gymwys i gael benthyciad gan OUSBA, mae'n rhaid eich bod dros 18 oed, a bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn gallu fforddio'r ad-daliadau.

Os byddwch yn defnyddio OUSBA, bydd dau opsiwn gennych:

1) **Bydd OUSBA** yn talu'ch ffi lawn yn uniongyrchol i'r Brifysgol Agored ar eich rhan. Yna, bydd OUSBA yn ymestyn y ffi a'r llog sy'n daladwy dros gyfnod o hyd at flwyddyn, gan eich galluogi i dalu eich ffioedd yn fisol.

2) **Bydd OUSBA** yn talu'ch ffi lawn yn uniongyrchol i'r Brifysgol Agored ar eich rhan. Yna, byddwch yn ad-dalu'r arian i OUSBA yn ddi-log ac yn llawn cyn i'ch modiwl ddechrau. 0% APR cynrychioliadol.

Nid Y Brifysgol Agored yw OUSBA; mae'n sefydliad cyfreithiol ar wahân, sy'n is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr y Brifysgol Agored.

Mae'r Brifysgol Agored yn gweithio gydag OUSBA yn unig, ac ni all gynnig cyfleusterau credyd i chi gan unrhyw ddarparwr arall. Os hoffech ystyried cael benthyciad gan unrhyw ddarparwr arall, dylech wneud eich ymholiadau eich hun.

### Cymorth gyda chostau byw

Mae cymorth ariannol ar gael i helpu gyda'ch costau byw wrth i chi astudio gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru hefyd. Yn dibynnu ar incwm eich cartref a faint o gredydau rydych yn eu hastudio, gallech dderbyn hyd at £4,500* y flwyddyn fel grant cynhaliaeth. Nid benthyciad yw'r arian rydych yn ei gael – ni fydd angen i chi ei ad-dalu. Fodd bynnag, os nad ydych yn gymwys i gael y grant llawn, gallwch hefyd wneud cais am fenthyciad atodol ychwanegol. Darganfyddwch fwy am **yr hyn y gallwch ei hawlio**.

*Mae rheolau cymhwysedd yn berthnasol ar gyfer cymorth ariannol

# HYGYRCHEDD A CHYMORTH

## Hygyrchedd modiwlau astudio ffurfiol

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr astudiaethau ar gael i bawb, p'un a oes gennych anabledd, cyflwr iechyd, anhawster iechyd meddwl, neu anhawster dysgu penodol (megis dyslecsia). Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cymhwyster neu fodiwl, byddwn yn gofyn i chi ddweud wrthym am unrhyw amgylchiadau ychwanegol a all effeithio ar eich astudiaeth. Bydd y cymorth y gallwn ei gynnig yn dibynnu ar y modiwlau y byddwch yn dewis eu dilyn, ond mae ein gwasanaethau'n cynnwys:

- Deunyddiau astudio hygyrch
- Cyfarpar arbenigol
- Asesiad wedi'i deilwra
- Cymorth ysgolion preswyl
- Cymorth ychwanegol i gael lle mewn tiwtorialau ac ysgolion dydd
- Cymorth ariannol

## Cymorth i fyfyrwyr anabl

Mae ein system ddysgu hyblyg yn cefnogi'r gymuned fwyaf o fyfyrwyr anabl o blith holl brifysgolion y DU.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y cymorth rydym yn ei gynnig **yma**.

## Llais y Myfyrwyr

Mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i atgyfnerthu llais y myfyrwyr yn barhaus, drwy alluogi ei myfyrwyr i chwarae rôl allweddol yn y gwaith o lywio cyfeiriad y Brifysgol.

Mae llawer o ffyrdd y gallwch ddweud eich dweud fel un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored:

- Ymgyngoriadau myfyrwyr (wyneb yn wyneb ac ar-lein)
- Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored
- Arolygon
- Dod yn gynrychiolydd Modiwl/Cwrs/Ysgol/Cyfadran
- Swyddog Llais y Myfyrwyr
- Cynrychiolwyr myfyrwyr ar bob un o bwyllgorau a grwpiau allweddol y brifysgol
- Cynrychiolwyr myfyrwyr ar brosesau sicrhau ansawdd
- Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored





## OpenLearn

Efallai y byddwch wedi sylwi ein bod wedi defnyddio dolenni yn y canllaw hwn at ein gwefannau **OpenLearn**, **OpenLearn Wales** ac **OpenLearn Cymru**. Ar rhain gallwch ddod o hyd i fwy na 1000 o **gyrsiau byr am ddim**, gan gynnwys **rhai** a fydd yn eich helpu i symud ymlaen i ddilyn gradd **atodol** gyda'r Brifysgol Agored.

Click for English




## Rydym yma i'ch helpu bob cam o'r ffordd, felly cysylltwch â ni!

### DARGANFYDDWCH FWY

| | |
|---|---|
| Ffoniwch | **029 2047 1170** |
| E-bost | **cymorth-cymru@open.ac.uk** |
| Ewch i | **open.ac.uk/contact** |
| Twitter | **@OUCymru** |
| Linkedin | **@Y Brifysgol Agored yng Nghymru** |
| Facebook | **@openuniversitywales** |

Mae'r Brifysgol Agored yn gorfforedig drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored wedi'i hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgaredd eilaidd, sef broceru credyd.

Mae'r holl wybodaeth yn y canllaw hwn yn ddangosol ac yn gywir ar adeg argraffu ym mis Mai 2021